

Gwybodaeth hawdd
ei ddeall



Rhybudd Brys Newydd Llywodraeth y DU



Mae Llywodraeth y DU yn profi eu
system rhybudd brys newydd ar 23
Ebrill 2023



Dyma wasanaeth newydd gan Lywodraeth y DU a
fydd yn eich rhybuddio os oes perygl i fywyd gerllaw.



Mewn argyfwng, fe fydd eich ffôn symudol neu dabled
yn cael rhybudd gyda chyngor am sut i gadw'n ddiogel.

Ebrill

23

Fe fydd y rhybudd prawf am 3:00pm ddydd Sul 23
Ebrill 2023.

Beth fydd yn digwydd



Fe fydd pob ffôn symudol a thabledi sy'n defnyddio 4G a 5G yn cael rhybudd.

Mae eich ffôn symudol neu dabled yn gallu:



- Gwneud sŵn uchel, hyd yn oed os ydy'n cael ei osod ar tawel.
- Dirgrynu.
- Darllen neges allan.



Fe fydd hyn yn para am tua 10 eiliad.

Fe fydd neges ar eich sgrin yn dweud:



Dyma brawf o Rybuddion Brys, gwasanaeth newydd gan lywodraeth y DU a fydd yn eich rhybuddio os oes yna beryg i fywyd gerllaw.



Mewn argyfwng gwirioneddol, dilynwch y cyfarwyddiadau yn y rhybudd i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel.



Ewch i gov.uk/alerts/about.cy am fwy o wybodaeth.



Does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Prawf ydy hwn i wneud yn siŵr bod y rhybuddion yn gweithio.



Efallai y byddwch chi hefyd yn cael yr un neges yn Gymraeg.



Dydy'r Llywodraeth ddim angen eich rhif ffôn nac unrhyw un o'ch manylion i anfon y rhybudd atoch.



Does dim rhaid i'ch ffôn symudol na'ch tabled gael data symudol na WiFi i gael y rhybudd.



Os ydych chi'n gyrru pan fyddwch chi yn cael y rhybudd, fe ddylech chi barhau i yrru. Peidiwch â chodi'r ffôn.



Os nad ydych chi eisiau cael y rhybudd prawf, rydych chi'n gallu diffodd eich ffôn neu ei roi ar y modd awyren.



Os nad ydych chi eisiau cael unrhyw rybuddion brys yn y dyfodol, fe fydd angen i chi:



- Edrych yn eich Gosodiadau ffôn a dod o hyd i rybuddion brys.
- Diffodd rhybuddion difrifol ac eithafol.



Os ydy hyn ddim yn gweithio, fe fydd angen i chi ofyn i'ch darparwr ffôn.

Pam fod Llywodraeth y DU yn gwneud y prawf



Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr bod y rhybudd yn gweithio. Yn y dyfodol mae'r llywodraeth neu'r heddlu yn gallu defnyddio rhybuddion i ddweud wrthy'ch chi am:



- llifogydd



- tanau



- tywydd drwg



Fyddan nhw ddim yn anfon rhybuddion atoch yn aml iawn. Mae'r rhybuddion yn helpu i'ch cadw'n ddiogel.



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) gan ddefnyddio [Photosymbols](#).